ARWEINIAD AR GYFER GRŴP CYFEIRIO DEFNYDDWYR GWASANAETHAU A GOFALWYR

Cyflwyniad

Amlinellir y fframwaith cyffredinol ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y broses o gynnal cydadolygiad yn yr arweiniad. Un cyfrwng a ddefnyddir i hwyluso eu cynnwys yw grŵp cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Gofynnir i bob awdurdod lleol sefydlu grŵp o'r fath yn ystod y cydadolygiad.

Diben

Dibenion grŵp cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau:

- rhoi mwy o lais i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y broses o gynnal cydadolygiad;
- rhoi cyfle i grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr gymryd rhan yn y broses gyfan sy'n gysylltiedig â chynnal cydadolygiad;
- sicrhau bod y tîm cydadolygu yn deall yn llawn brofiadau, barn a rhagdybiaethau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;
- mynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau sy'n rhan annatod o'r cynlluniau 'cipolwg' megis cyfarfodydd unigol o grwpiau defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer math arbennig o wasanaeth;
- bod yn gyfrwng cyfathrebu ar gyfer themâu sy'n ymddangos o fewn yr adolygiad;
- profi'r wybodaeth a gafwyd o ffyrdd eraill o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, megis yr arolwg holiaduron;
- archwilio i ba raddau y mae'r broses cydadolygu wedi annog cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang a chynrychiadol o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, gan gynnwys y rheiny a allai fod yn anos eu cyrraedd.

Strwythur

Bydd y strwythur ar gyfer y grŵp cyfeirio yn amrywio, mewn ymateb i'r amgylchiadau lleol a'r modd y mae awdurdodau lleol yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mewn rhai awdurdodau lleol, efallai y gallai grŵp a sefydlwyd ymgymryd â rôl benodol grŵp cyfeirio at ddibenion y broses cydadolygu. Mewn ardaloedd eraill, bydd yn rhaid sefydlu grŵp penodol at y diben hwn. Bydd y tîm cydadolygu yn derbyn arweiniad gan yr awdurdod lleol, y cyngor gwirfoddol sirol a'r mudiadau gwirfoddol cenedlaethol perthnasol ynglŷn â'r grwpiau lleol priodol a ddylai gael eu cynrychioli ar y grŵp cyfeirio.

Ar bob achlysur, dylid sicrhau bod y nodweddion cyffredin canlynol yn cael eu hystyried:

- cynrychiolaeth eang o blith amryw grwpiau gwasanaethau;
- cydbwysedd rhwng defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr;.
- trafodaethau gydag aelodau'r grŵp er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud;
- fframwaith lle rhoddir cymorth i'r grŵp, naill ai yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu gan gorff gwirfoddol sy'n medru ymgymryd â'r rôl hon;
- rhaglen o gyfarfodydd y cytunwyd arni, gydag o leiaf un cyfarfod ym mhob cam o'r broses cydadolygu.

Bydd yr asesydd lleyg yn cyfrannu at drafodaethau'r grŵp ochr yn ochr ag aelodau eraill y tîm cydadolygu.

Cyfyngiadau

Cynhelir cyfarfodydd y grŵp cyfeirio drwy ddangos y parch dyladwy i hawl yr unigolyn i gyfrinachedd. Dylent annog cynnal trafodaeth onest ac agored ynglŷn â themâu sy'n ymddangos o fewn y broses cydadolygu. Fodd bynnag,

disgwylir i bawb sy'n rhan o'r grŵp cyfeirio ddefnyddio'r wybodaeth a'r sylwadau a fynegwyd mewn modd cyfrifol a rhesymol.

Bydd yr adolygwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gyfrannwyd gan aelodau'r grŵp cyfeirio yn rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad ac efallai y bydd yn ymddangos yn yr adroddiad a gyhoeddir. I'r graddau hynny felly, ni fydd y wybodaeth yn gyfrinachol ond ni chaiff ei phriodoli i unigolion penodol.

Bydd pawb a fydd yn gysylltiedig â'r grŵp yn deall bod hyn yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth ar gyfer y cydadolygiad, nid gwasanaeth datrys problemau neu ymateb i gwynion. Ni fydd modd i adolygwyr ymateb i faterion unigol a fydd yn cael eu codi ac ni fydd modd datrys problemau unigol.

Disgwylir i'r adolygwyr rannu themâu allweddol yn agored ac yn onest drwy gydol y broses gyda'r grŵp cyfeirio. Fodd bynnag, ni chaiff y grŵp cyfeirio eu hysbysu ynghylch y barnau sydd yn yr adroddiad adolygu cyn ei gyhoeddi. Gall aelodau'r grŵp ddisgwyl gwahoddiad i'r achlysur pryd y caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r awdurdod lleol.

Cod Ymddygiad

Disgwylir i'r adolygwyr a'r aseswyr lleyg gydymffurfio â'u cod ymddygiad yn eu holl ymwneud â grŵp cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Rhaglen enghreifftiol

Yn rhan o'r broses o sefydlu'r adolygiad, bydd yr adolygydd arweiniol yn cytuno ar gyfansoddiad y grŵp cyfeirio â'r awdurdod lleol.

Cyn cam cyntaf y gwaith maes, bydd y grŵp cyfeirio yn cynnal cyfarfod briffio â'r awdurdod lleol.

Yn rhan o raglen gwaith maes Cam 1, bydd y tîm cydadolygu yn cyfarfod â'r grŵp cyfeirio er mwyn cyfnewid gwybodaeth (a hefyd er mwyn gwneud asesiad cychwynnol o'r holiaduron a anfonwyd at y defnyddwyr gwasanaethau a'r gofalwyr).

Tua diwedd y gwaith maes ar gyfer yr ail gam, bydd cyfarfod pellach yn cael ei gynnal er mwyn trafod y themâu sy'n dod i'r amlwg.

Ar ddiwedd yr ail gam, bydd y grŵp cyfeirio yn derbyn adborth gan y tîm cydadolygu ynglŷn â'r canfyddiadau cyffredinol ac yn ymateb i hynny.